**Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith**

—

**Climate Change, Environment, and Infrastructure Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddHinsawdd@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddHinsawdd
0300 200 6565

—

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddClimate@senedd.wales
senedd.wales/SeneddClimate
0300 200 6565

Steffan Lloyd,
Ysgol Gynradd Llanishen Fach,
Heol Uchaf,
Caerdydd CF14 6SS

7 Tachwedd 2022

Annwyl Mr Lloyd a'r disgyblion,

Diolch am ymweld â’r Senedd yr wythnos diwethaf ac am rannu eich barn ar y gwaharddiad ar blastigion.

Roedd yn bleser clywed eich cân, 'Plastic Free'. Roedd wedi'i ysgrifennu mor dda ac mi roedd yn ffordd greadigol a phwerus o gyfleu'ch neges. Dylech fod yn falch iawn.

Fe wnes i fwynhau darllen eich llythyrau yn fawr. Rydych wedi llwyddo i gyfathrebu’n glir iawn pam mae'r gwaharddiad ar blastig yn bwysig i chi. Mae'n galonogol gwybod pa mor angerddol ydych chi am warchod ein hamgylchedd.

Yn ei gyfarfod ar 9 Tachwedd, bydd y Pwyllgor, yng nghwmni’r Gweinidog Newid Hinsawdd, yn trafod newidiadau posibl (sy’n cael eu galw’n ‘welliannau’) i Fil Diogelu’r Amgylchedd (Cynhyrchion Plastig Untro) (Cymru) (‘y Bil’). Yn ystod yr wythnosau nesaf, bydd y Senedd yn trafod y Bil cyn gwneud penderfyniad terfynol o ran a ddylai ddod yn Ddeddf, neu gyfraith, ai peidio. Rwy’n gobeithio y byddwch yn cael cyfle i ddilyn taith y Bil drwy’r Senedd.

Unwaith eto, diolch am ymweld â ni. Gobeithio eich bod wedi mwynhau eich amser yn y Senedd.

Yn gywir,



Llyr Gruffydd AS | Cadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith